Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Bu Paula O'Connor (Cadeirydd Annibynnol) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | O G James |
| P K Jones | M B Lewis | S Pritchard |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Nick Davies | Prif Archwiliwrr |
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr |
| Matthew Joyce-Brown | Cyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J W Jones, W G Thomas a/ac T M White
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

---

**16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol: -

Paula O'Connor – yr Agenda gyfan - Gweithiwr cyflogedig gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre - yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel Pennaeth Archwilio Mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Personol.

**17 Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad Perfformiad y Pwyllgor Archwilio 2017/18.**

Hwyluswyd sesiwn gan Gareth Lewis a David Williams o Swyddfa Archwilio Cymru i ganiatáu i'r Pwyllgor Archwilio gwblhau adolygiad o'i berfformiad yn ystod 2017/18.

Gofynnwyd i aelodau ystyried y meysydd gwaith a gyflawnwyd yn llwyddiannus gan y pwyllgor, a'r rhai y mae angen eu gwella. Roedd y sesiwn yn seiliedig ar 7 swyddogaeth graidd pwyllgor archwilio a sefydlwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA). Dyma'r swyddogaethau craidd y'u trafodwyd: -

1) Bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau

gweithredu eraill yn gywir sy'n angenrheidiol er mwyn ei wella, a dangos sut mae llywodraethu'n cefnogi cyflawniadau amcanion yr awdurdod.

2) Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr awdurdod:

- goruchwylio'i annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb;
- cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol; a
- hyrwyddo'r defnydd effeithiol o ddefnyddio archwilio mewnol gyda'r fframwaith sicrwydd.

3) Ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risgiau'r awdurdod a'r amgylchedd rheoli. Adolygu proffil risg y sefydliad a chael sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu dilyn o ran materion sy'n ymwneud â risgiau, gan gynnwys partneriaethau â sefydliadau eraill.
4) Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, gan gynnwys rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwerth am arian ac i reoli dod i gysylltiad â risgiau twyll a llwgrwobrwyo.
5) Ystyried adroddiadau ac argymhellion awdit allanol ac asiantaethau arolygu a'u goblygiadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
6) Cefnogi perthnasoedd effeithiol rhwng awdit allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau arolygu a chyrff perthnasol eraill, gan annog hyrwyddo gwerth y broses archwilio.
7) Adolygu datganiadau ariannol, barn yr archwilydd allanol ac adroddiadau i aelodau, a monitro camau gweithredu rheoli mewn ymateb i'r materion y'u nodwyd gan archwilio allanol.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n rhoi adborth ar ganlyniadau'r sesiwn er mwyn eu hystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am arwain y trafodaethau.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Bydd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyniad a Pherfformiad Strategol, yn rhoi dolen/mynediad at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol electronig er mwyn i'r Pwyllgor ddeall natur y 31 o risgiau lefel uchel a nodwyd;
3) Bydd y Cadeirydd yn cwrdd â'r Prif Weithredwr i drafod effaith y 31 o risgiau lefel uchel a sut mae'r awdurdod yn rheoli'r risgiau hynny;
4) Adrodd am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel eitem ar wahân i'r Datganiad o Gyfrifon;
5) Bydd y Pwyllgor yn trafod ymhellach y posibilrwydd o ganiatáu i aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor Archwilio corff cyhoeddus arall;
6) Bydd aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n cwrdd ag archwilwyr allanol heb fod swyddogion yn bresennol;
7) Bydd y Pwyllgor Archwilio'n olrhain yr argymhellion a nodir gan Swyddfa Archwilio Cymru'n fanwl ac yn amserol;
8) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am ganfyddiadau allweddol y trafodaethau.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.53 am

**Cadeirydd**